Cyngor Gwynedd

# Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus

*Adolygwyd Awst 2015*

**"Mae diogelu plant ac oedolion yn gyfrifoldeb i bawb sy'n cynrychioli neu'n gweithio ar ran y Cyngor. Mae'r polisi hwn a'i atodiadau yn ddatganiad clir o'r ymrwymiad i sicrhau bod cefnogaeth a chynhaliaeth briodol yn ei le er mwyn cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw".**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Un o brif flaenoriaethau Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn diogelu plant ac oedolion.

1.2. Rydym fel Cyngor o'r farn bod gan pob plentyn ac oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei rôl a'i gyfrifoldebau i roi arweiniad pendant i Aelodau'r Cyngor, staff, gwirfoddolwyr a darparwyr gwasanaeth a'r rhai rydym yn eu gwasanaethu yn y maes allweddol hwn.

1.3. Mae "diogelu" yn fusnes i bawb o fewn y Cyngor. Tra mai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r gwasanaethau arweiniol ar gyfer ymdrin ag ymholiadau i honiadau/pryderon y gallai plant ac oedolion fod yn dioddef niwed sylweddol, mae gan **bawb** gyfrifoldeb i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion, gwaeth beth yw rôl yr unigolyn.

1.4. Dylid pwysleisio bod "diogelu" yn gysyniad ehangach nag amddiffyn plant ac oedolion, ac a wnelo â hyrwyddo:

- iechyd corfforol, emosiynol a meddwl;
- amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod;
- addysg, hyfforddiant a hamdden;
- eu cyfraniad i gymdeithas;
- lles cymdeithasol ac economaidd

1.5. Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi ymrwymo yn ffurfiol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (1989). Gwnaed hyn yn Ionawr 2007. Rhennir y 41 Erthygl Hawliau mewn tri categori - Hawliau Darpariaeth, Hawliad Amddiffyniad a Hawliau Cyfranogiad.

- **Hawliau Darpariaeth** – mae hawliau darpariaeth yn cynnwys yr hawl i safonau byw digonol, yr hawl i ofal iechyd digonol, yr hawl i addysg am ddim a'r hawl i wasanaethau cyfreithiol a chymdeithasol;

- **Hawliau Amddiffyniad** – mae hawliau amddiffyniad yn cynnwys yr hawliau i gael amddiffyniad rhag gwahaniaethau, camdriniaeth, esgeulustod, bwlio, herwgipio yn ogystal â'r hawl i gael diogelu o fewn y system gyfiawnder;

- **Hawliau Cyfranogiad -** mae hawliau cyfranogiad yn cynnwys yr hawl i ryddid mynegiant, yr hawl i gael lleisio barn, yr hawl i wybodaeth ar hawl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.

1.6. Er bod gan bob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion ymrwymiad i ddiogelu a hyrwyddo eu lles, mae gan nifer o sefydliadau rolau neu ddyletswyddau statudol:

- o dan Adran 28 o Ddeddf Plant 2004, mae'n ddyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau o safbwynt yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant;
- o dan Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, mae'n ddyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau bod pob cam rhesymol yn cymryd lle er mwyn amddiffyn oedolion ac atal trosedd ac anrhefn wrth gyflawni ei swyddogaethau.

## 2. PWRPAS Y DDOGFEN HON

Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno "Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion" y Cyngor.

### 2.1. Amcanion ac Egwyddorion y Polisi a'r Canllawiau

2.1.1 Dyma amcanion y Polisi a'r Canllawiau Diogelu:

- i amlygu'r modd y bydd Cyngor Gwynedd yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn y maes diogelu plant ac oedolion;
- i roi sicrwydd i Aelodau'r Cyngor, aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar ran y Cyngor, bod trefniadau clir yn eu lle i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion;
- bod Aelodau'r Cyngor, staff a gwirfoddolwyr ac eraill sy'n gweithio ar ran y Cyngor gyda canllawiau eglur i'w defnyddio pan fod amheuaeth bod plentyn neu oedolyn mewn risg o niwed.

2.1.2 Rydym o'r farn fel Cyngor ei bod bob amser yn annerbyniol i blentyn neu oedolyn gael ei gam-drin neu gael niwed o unrhyw fath. Adlewyrchir hyn yn yr egwyddorion isod sy'n sail i'r Polisi a Chanllawiau;

- Mae gan bob plentyn ac oedolyn (waeth beth fo'u cefndir, diwylliant, oed, anabledd, rhyw, tarddiad hiliol, cred grefyddol) yr hawl i gymryd rhan mewn cymdeithas ddiogel heb unrhyw drais, ofn, camdriniaeth, bwlio a gwahaniaethau;
- Mae gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed, cam-fanteisio, a chamdriniaeth;
- byddwn fel Cyngor yn rhoi lles plant ac oedolion yn ganolog i'n polisïau a'n gweithdrefnau;
- byddwn fel Cyngor yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â phlant, eu rhieni, gofalwyr ac oedolion ac asiantaethau eraill er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion;
- byddwn fel Cyngor yn parchu hawliau, dymuniadau, teimladau a phreifatrwydd plant ac oedolion trwy wrando arnynt a lleihau i'r eithaf unrhyw risgiau a allai effeithio arnynt;
- byddwn fel Cyngor yn buddsoddi mewn gwaith ataliol ac ymyrraeth cynnar, gan geisio osgoi sefyllfaoedd lle gallai camdriniaeth neu honiadau o gamdriniaeth neu niwed ddigwydd.

### 2.2. Deilliannau

2.2.1 Mae'r Polisi a'r Canllawiau yma yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu plant ac oedolion a'u hamddiffyn rhag cael eu cam-drin.

2.2.2 Wrth roi'r Canllawiau ar waith byddwn yn mesur yr effaith yn gyson, ac yn cyflawni'r deilliannau lefel uchel canlynol:

- bod dealltwriaeth clir ymysg Aelodau, staff a gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n gweithio ar ran y Cyngor o bolisïau a chanllawiau diogelu plant ac oedolion;
- bod gweithdrefnau corfforaethol ac adrannol cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Polisïau a'r Canllawiau a gyflwynir yma;
- bod trefniadau cyfathrebu clir a hwylus yn eu lle ar draws y sefydliad, gan gynnwys gwybodaeth am y swyddogion allweddol ym mhob Gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb am faterion diogelu plant ac oedolion;
- bod cydymffurfiaeth rhwng y gweithdrefnau a'r rhai sy'n weithredol ar lefel Cymru gyfan, a phrotocolau cysylltiedig ar gyfer diogelu plant ac oedolion;
- bod Aelodau, staff a gwirfoddolwyr yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant ynglyn â'r canllawiau, a bod hyn yn drefniant parhaol a chyson o fewn y sefydliad.

## 3. CYFRIFOLDEBAU A DYLETSWYDDAU

3.1 Mae cyfrifoldeb ar **bob** Cynghorydd, **pob** aelod o staff, **pob** gwirfoddolwr a **phob** darparwr gwasanaeth ar gytundeb i weithredu'n briodol os oes amheuaeth neu os mynegir pryder fod cam-drin yn digwydd.

3.2 Wrth ddilyn y gweithdrefnau cywir, mae modd sicrhau bod y camau priodol yn cael eu gweithredu er mwyn delio gydag unrhyw bryder/honiad neu amheuaeth.

3.3 Golygai hyn bod gan pob Adran o fewn y Cyngor rôl allweddol i chwarae ac i gymryd perchnogaeth lawn dros y maes diogelu. Mae gofyn felly sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau clir yn eu lle o fewn pob Adran o fewn y Cyngor i sicrhau bod ymholiadau i honiadau/pryderon y gallai plant ac oedolion fod yn dioddef niwed arwyddocaol yn derbyn y sylw priodol.

3.4 Mae'r ddogfen hon yn dwyn ynghyd y polisïau a chanllawiau corfforaethol yn y maes diogelu plant ac oedolion, a bydd yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer gweithdrefnau pob Adran o fewn y Cyngor.

3.5 Yn hynny o beth, bydd disgwyl i bob Adran lunio eu polisïau a'u gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion i gyd-fynd yn llawn gyda'r Polisi a'r Canllawiau corfforaethol hyn.

3.6 Yn y Polisi yma ac yn ol y cyd –destyn mae cyfeiriadau at y 'Gwasanaethau Cymdeithasol' yn golygu'r AdranPlant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion Iechyd a Llesiant

## 4. SWYDDOGAETHAU SWYDDOGION AC AELODAU ALLWEDDOL

### 4.1. Cyfarwyddwr Statudol (Gwasanaethau Cymdeithasol)
**Deilydd Presennol y Swydd: Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol)**
**[t. 01286 679227 e. AwenMorwenaEdwards@gwynedd.gov.uk]**

4.1.1 **Y Cyfarwyddwr Statudol (Gwasanaethau Cymdeithasol) sydd â'r cyfrifoldeb terfynol ac anrhanadwy ar faterion diogelu.** Mae'n gyfrifol am sicrhau bod gan y Cyngor fesurau diogelu priodol i amddiffyn plant a phobl ifanc, oedolion a phobl hŷn fregus, ac am adrodd ar lefel gorfforaethol i gynghorwyr am eu heffeithiolrwydd.

4.1.2 Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am y canlynol:

- goruchwylio'r broses o weithredu, monitro a gwella gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion;
- sicrhau trefniadau a phrosesau adrodd cadarn ar gyfer diogelu plant ac oedolion ac i adrodd ar lefel gorfforaethol ac i Aelodau;
- sicrhau effeithiolrwydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a'r Bwrdd Diogelu Oedolion.
- gwneud yn siwr bod gwersi yn cael eu dysgu yn sgil adolygu achosion difrifol a'u bod yn cael eu cymhwyso fel bo angen gan bob asiantaeth, gan gydnabod bod effeithiolrwydd trefniadau'n dibynnu ar ansawdd cyfraniad pob asiantaeth;
- codi'r proffil, cefnogi'r polisi a sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio yn llawn gyda'r Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion;
- sicrhau bod pob aelod o staff yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn deall ac yn gweithredu safonau uchel o ran adnabod risg ac arferion diogelu;
- hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o faterion diogelu plant ac oedolion ac addasu arferion gwaith cymdeithasol yng ngoleuni ymchwil perthnasol;

- codi safonau mewn arferion gwaith cymdeithasol trwy hyfforddi goruchwylio proffesiynol a chyfleoedd eraill i ddysgu a myfyrio, fel bod staff sy'n gweithio yn y maes diogelu'n cael eu cefnogi'n briodol;
- cyflwyno sylwadau yn ei rôl statudol ar adroddiadau Cabinet sy'n ymwneud a'r maes diogelu.

4.1.3 Tra bod gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion, y Cyfarwyddwr Statudol yw'r Uwch Swyddog o fewn y Cyngor sydd ag atebolrwydd terfynol a diwahân am hyn.

**4.2. Cyfarwyddwr Arweiniol Plant a Phobl Ifanc**
**Deilydd Presennol y Swydd: Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol)**
**[t. 01286 679162 e. IwanJ@gwynedd.gov.uk]**

4.2.1 Mae Deddf Plant (2004) yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i benodi cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc a phenodi aelod arweiniol penodedig ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc. Nid yw rôl y Cyfarwyddwr Arweiniol yng Nghymru'n newid trefniadau ar gyfer awdurdod gweithredol nac atebolrwydd am wasanaethau. Bydd gan Gyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yng Nghrymu tair prif rôl:

- Yn gyntaf, y Cyfarwyddwr Arweiniol fydd yn gyfrifol am hybu partneriaeth wrth gynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc, yn gorfforaethol ar draws adrannau'r awdurdod lleol, ac mewn cydnabyddiaeth o'i rôl arweiniol, ar draws yr awdurdod a'i bartneriaid;
- Yn ail, bydd y Cyfarwyddwr Arweiniol yn cynnig arweinyddiaeth sydd ei hangen i sicrhau bod proffil uchel yn cael ei rhoi o fewn yr awdurdod lleol i gynllunio mewn partneriaeth gan hyrwyddo newid strategol i blant a phobl ifanc yn y maes;
- Yn drydydd, y Cyfarwyddwr Arweiniol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

4.2.2 Mae'r cyfrifoldeb hwn yn ychwanegol at ac yn annibynnol ar unrhyw gyfrifoldeb gweithredol sydd gan Gyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer gwasanaeth penodol neu grwp o wasanaethau a gallai fod yn gysylltiedig ag unrhyw Gyfarwyddwr priodol o fewn yr Uwch Dim Rheoli.

**4.3. Rheolwyr Dynodedig o fewn Pob Adran**

4.3.1 Mae pob Adran o fewn y Cyngor wedi enwebu "Rheolwr Dynodedig" ar gyfer ymwneud gyda materion diogelu plant ac oedolion.

4.3.2 Mae'r Rheolwyr Dynodedig yn gyfrifol am:

- weithredu fel ffynhonnell allweddol i roi cyngor a chefnogaeth i staff eraill yn yr Adran ar holl faterion diogelu;
- bod yn gyfarwydd â Pholisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Cyngor Gwynedd, ynghyd â gweithdrefnau Diogelu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan;
- sicrhau bod gweithdrefnau mewnol effeithiol i ymdrin â phryderon o fewn yr Adran, gan weithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol er cyflawni hyn;
- cynrychioli'r Adran ar y Panel Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion y Cyngor;
- sicrhau bod y broses o gydymffurfio â'r Polisi a'r Weithdrefn hon yn cael ei monitro gan adrodd yn rheolaidd i'r Tîm Rheoli adrannol;
- mynychu hyfforddiant perthnasol ar gyfer "Rheolwyr Dynodedig".

4.3.3. Dylai unrhyw aelod o staff sydd â phryder ynglyn ag ymddygiad cydweithiwr tuag at blant neu oedolyn gysylltu yn syth gyda'r Rheolwr Dynodedig neu ddirprwy a enwir o fewn yr Adran.

4.3.3 Gweler **Atodiad 1** ar gyfer rhestr o Reolwyr Dynodedig ar gyfer pob Adran.

4.3.4 Dylai'r unigolion gyfeirio eu pryderon am ddiogelu pan wneid honiadau yn erbyn "Rheolwr Dynodedig" i'r Pennaeth Adran/Cyfarwyddwr.

**4.4. Pob Pennaeth Adran**

4.4.1 Bydd pob Pennaeth Adran - trwy eu Timau Rheoli - yn gyd-gyfrifol am sicrhau bod yr holl ofynion statudol o ran diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion yn derbyn y sylw priodol. Mae hyn yn cynnwys ansawdd, cynnwys ac amlder yr hyfforddiant a ddarperir, a chynnal cofnodion hyfforddi staff digonol.

4.4.2 Rhaid i bob Pennaeth Adran sicrhau bod pob aelod o staff mewn swyddi perthnasol yn cael eu gwirio trwy drefn y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bod eu staff yn cydymffurfio â Pholisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion. Rhaid i bob Pennaeth Adran sefydlu trefniadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y polisi hwn a Pholisi Datgelu Troseddau a Gwirio Cofnodion Troseddol y Cyngor. Rhaid i bob Pennaeth Adran sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o bob gwiriad a wneir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

4.4.3 Bydd disgwyl i bob Pennaeth Adran gyd-lynu'r broses o baratoi Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion o fewn eu Hadran. Bydd disgwyl i'r Polisi hwn gael ei baratoi er mwyn amlygu trefniadau'r Adran i ymateb i faterion all godi yn y maes diogelu. Bydd yn ofynnol i'r Polisi gyd-fynd yn llawn â'r Polisi a'r Canllawiau Corfforaethol.

4.4.4 Bydd gofyn i bob Adran o fewn y Cyngor adrodd ar eu Polisïau a Chanllawiau Diogelu i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion.

4.4.5 Mae Grwp Rheoli'r Cyngor yn dwyn holl Benaethiaid Adran, y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr at ei gilydd - a hynny'n fisol. Bydd cyfle yn y cyfarfodydd hyn i unrhyw un o'r Penaethiaid gyfeirio at faterion diogelu. Rhoddir cyfle ar gychwyn y cyfarfod i unrhyw un o'r Penaethiaid wneud hynny.

**4.5. Pob Rheolwr Llinell**

4.5.1 Mae pob Rheolwr Llinell yn gyfrifol am sicrhau bod y staff y maent yn gyfrifol amdanynt yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt, yn gymesur â'u cyfrifoldebau. Mae canllawiau ynglyn â pha aelodau o staff dylai gael hyfforddiant ac ar ba lefel ar gael gan yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

**4.6. Pob Aelod o Staff a Gwirfoddolwyr**

4.6.1 Mae pob aelod o staff a gwirfoddolwyr yn gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd sy'n amddiffyn ac yn hyrwyddo lles plant ac oedolion. Rhaid iddynt hefyd weithredu mewn ffordd sy'n eu hamddiffyn rhag honiadau ar gam o gam-drin cyn belled ag yw'n bosibl, yn unol â'r polisi hwn. Rhaid iddynt ddwyn materion o bryder am ddiogelwch a lles plant ac oedolion i sylw'r Rheolwr Dynodedig o fewn eu Hadran.

**4.7. Contractwyr, Is-gontractwyr neu Sefydliadau Eraill a ariennir gan neu ar ran y Cyngor Gwynedd**

4.7.1 Mae contractwyr, isgontractwyr neu sefydliadau eraill a ariennir gan neu ar ran y Cyngor yn gyfrifol am drefnu gwiriadau perthnasol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a sicrhau bod eu staff yn cydymffurfio â'u Polisi a'u Gweithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion priodol. Mae nhw hefyd yn gyfrifol am roi gwybod i reolwyr perthnasol yn y Cyngor am unrhyw bryderon sydd ganddynt a chyfeirio at faterion amddiffyn. Mae cyfrifoldeb ar reolwr y contract i sicrhau cydymffurfiaeth a'r gofynion yma.

## 4.8. Canllawiau Manwl

4.8.1 Mae copi o "Arwyddion o Gamdriniaeth" yn cael ei gyflwyno yn **Atodiad 2** a'r "Cod Ymddygiad ac Arferion Gweithio'n Ddiogel" yn **Atodiad 3**.

4.8.2. Yn ogystal, cyflwynir yn **Atodiad 4** ddatganiad o ymrwymiad y Cyngor er mwyn hyfforddi staff (a Chynghorwyr) yn y maes diogelu. Mae **Atodiad 5** hefyd yn cyflwyno canllawiau manwl mewn perthynas â "Datgelu Troseddu a Gwirio Cofnodion Troseddol".

## 5. RÔL AELODAU'R CYNGOR

5.1. Bydd Aelodau'r Cyngor yn derbyn yr wybodaeth ganlynol yn y maes diogelu:

- Bydd yr Aelod Cabinet dros Oedolion a Iechyd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc yn aelodau sefydlog o'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion. Bydd y Panel hwn yn derbyn gwybodaeth am arferion gwaith a gweithdrefnau pob Adran o fewn y Cyngor, gan roi sicrwydd bod Gwasanaethau'n cyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r Polisi a'r Canllawiau Diogelu Corfforaethol. Bydd y Panel yn ogystal yn derbyn gwybodaeth am drefniadau rheoli perfformiad pob Gwasanaeth, er mwyn dangos eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n diogelu plant ac oedolion.

  Bydd rôl bwysig gan Aelodau'r Panel er mwyn herio gwybodaeth am ganlyniadau'r broses monitro perfformiad ar draws y gwasanaethau o safbwynt diogelu plant ac oedolion. Cyfrifoldeb yr Aelodau'r Panel hwn hefyd fydd sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau corfforaethol effeithiol yn cael eu datblygu ar draws y sefydliad.

  **Aelod Cabinet - Plant a Phobl Ifanc - Cyng. Mair Rowlands (Cadeirio)**
  [t. 07912 433202 e. Cynghorydd.MairRowlands@gwynedd.gov.uk ]

  **Aelod Cabinet – Oedolion a Iechyd - Cyng. Gareth Roberts**
  [t. 01758 760478 e. Cynghorydd.GarethRoberts@gwynedd.gov.uk ]

  **Aelod Cabinet - Addysg - Cyng. Gareth Thomas**
  [t. 01766 770015 e. Cynghorydd.GarethThomas@gwynedd.gov.uk ]

- Bydd yr Aelod Cabinet dros Gofal a Iechyd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc yn adrodd ar waith y Panel Strategol i holl Aelodau'r Cabinet yn flynyddol. Bydd pob Aelod o'r Cabinet yn derbyn sicrwydd gan yr Aelod Cabinet Oedolion a Iechyd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc bod rhaglen waith clir yn ei lle, a bod polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor yn gadarn yn y maes diogelu. Yn ogystal, bydd rhaid adrodd bod trefniadau addas yn eu lle er mwyn monitro perfformiad pob Gwasanaeth ynglŷn ag adolygu a gwerthuso polisïau. Bydd cyfle yn ogystal yn yr Adroddiad Blynyddol i'r tri Aelod Cabinet sy'n sefyll ar y Panel Strategol amlygu unrhyw rwystrau neu ofid sydd ganddynt o safbwynt ymateb neu berfformiad unrhyw Wasanaeth o fewn y Cyngor.

  Bydd unrhyw wersi o Adolygiadau Achosion Difrifol yn ogystal yn cael eu hadnabod a'u hadrodd i'r Aelodau'r Cabinet fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol.

- Bydd Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau (18 o gynghorwyr) yn derbyn gwybodaeth am waith y Panel Strategol Diogelu mewn Adroddiad Blynyddol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Aelodau graffu a herio Aelodau'r Panel Strategol. Bydd Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn derbyn gwybodaeth am raglen waith y Panel Strategol, y cynnydd yn erbyn y rhaglen waith hon, a'r prif negeseuon sy'n deillio o'r trefniadau monitro perfformiad. Bydd sylwadau'r

Pwyllgor Craffu yn llywio ac yn dylanwadu ar flaenoriaethau rhaglen waith y Panel Strategol.

- Bydd **holl** Aelodau'r Cyngor yn derbyn adroddiad o waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion - a hynny ar ffurf "Adroddiad Blynyddol" fydd yn adolygu'r hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel, ynghyd â blaenoriaethau'r rhaglen waith dros y flwyddyn i ddod. Bydd yr adroddiad yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn - a hynny wedi derbyn ystyriaeth gan Aelodau'r Cabinet. Bydd pob Aelod yn derbyn gwybodaeth - yn sgil yr adroddiad blynyddol - o effeithiolrwydd trefniadau a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion y Cyngor.

- Bydd pob cynghorydd yn mynychu hyfforddiant yn y maes diogelu plant ac oedolion. Cedwir cofrestr o'r rhai sydd yn mynychu a bydd hyn yn cael ei adrodd fel rhan o drefniadau monitro perfformiad a gydlynir gan y Panel Strategol. Bydd yr hyfforddiant yn codi ymwybyddiaeth Aelodau Cyngor Gwynedd o'r Polisi a'r Canllawiau hyn, a chynyddu dealltwriaeth Aelodau'r Cyngor o'r gweithdrefnau diogelu sy'n bodoli o fewn y Cyngor.

5.2. Cyflwynwir "Canllawiau Ymarfer Da i Gynghorwyr - Cyswllt Diogel gyda Phlant ac Oedolion Bregus" yn **Atodiad 6**.

## 6. EGLURDEB O RAN TREFN GYFEIRIO

6.1. Dylai unrhyw aelod o staff sydd â phryder ynglyn ag ymddygiad cydweithiwr, neu aelod o'r cyhoedd, tuag at blant neu oedolyn gysylltu yn syth gyda'r Rheolwr Dynodedig o fewn yr Adran.

6.2. Os oes gan Gynghorydd (neu unrhyw aelod o'r cyhoedd) bryder ynglŷn â diogelwch unigolyn, yna dylid cysylltu yn syth gyda naill ai'r **Tim Dyletswydd Gwasanaeth Plant (Gwasanaethau Cymdeithasol)** neu'r **Tim Cynghori ac Asesu Gwasanaeth Oedolion ar 01766 772577**.

6.3. Dylid cysylltu gyda **Tim Tu Allan i Oriau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01766 772577** os yw'r mater yn codi **ar ôl 5.00 y.p. Llun i Gwener ac ar benwythnosau a gwyliau banc**.

6.4. Bydd angen cysylltu yn syth gyda'r Heddlu os yw'r plentyn neu oedolyn mewn perygl.

6.5. Os nad yw'r Rheolwr Dynodedig ar gael, yna dylid cyfeirio'r mater yn syth i'r **Timau Cyfeirio** (**manylion fel y nodir uchod**). Mae'n allweddol i beidio oedi.

6.6. Mae copi o fanylion y "Drefn Gyfeirio" yn **Atodiad 7**. Hefyd, mae copi o'r canllawiau manwl mewn perthynas a "Ymdrin a Honiadau o Gamdrin Proffesiynol" yn **Atodiad 8**.

## 7. TREFNIADAU LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

### 7.1. Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion

7.1.1 Yn gorfforaethol, mae'r cyfrifoldeb am gynnal trosolwg o drefniadau diogelu plant ac oedolion wedi'i ddirprwyo i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion gan y Cabinet.

7.1.2 Prif gyfrifoldebau'r Panel yw sicrhau bod trefniadau diogelu plant ac oedolion cadarn yn eu lle o fewn Cyngor Gwynedd.

7.1.3 Mae'r Panel yn gweithredu ar lefel strategol er mwyn:

- Rhoi sicrwydd i Aelodau Arweiniol perthnasol (Aelod Cabinet dros Oedolion a Iechyd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc) bod gweithdrefnau'r Cyngor yn gadarn pan fod materion diogelu plant ac oedolion yn y cwestiwn;

- Dwyn ynghyd gwaith rhyngadrannol yn y maes diogelu gan sicrhau cyfathrebu corfforaethol effeithiol;
- Cefnogi swyddogaethau a dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Statudol o fewn y Cyngor;
- I ddatrys unrhyw rwystrau all fodoli rhag cael gweithdrefnau effeithiol a llwyddiannus yn eu lle;
- I dderbyn ac ystyried gwybodaeth am dueddiadau parthed honiadau o gam-drin proffesiynol, gan fabwysiadu cynllun gweithredu i ymateb pe bai'r angen yn codi;
- I dderbyn a herio gwybodaeth am y cynnydd yn erbyn rhaglenni gwaith sydd wedi eu comisiynu;
- I ystyried a deall oblygiadau Adolygiadau Achosion Difrifol a sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn effeithioli argymhellion o fewn adolygiadau o'r math;
- I dderbyn a herio Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol;
- Cymeradwyo Polisi a Chanllawiau Diogelu pob Gwasanaeth o fewn y Cyngor.

7.1.4 Mae gan y Panel rôl allweddol i chwarae er mwyn sicrhau bod pob Adran yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â Pholisi a Chanllawiau Diogelu'r Cyngor. Mae'r Panel yn ogystal yn sicrhau bod gan pob Adran system reoli perfformiad yn ei le i ddangos ei bod yn cyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n diogelu plant ac oedolion.

7.1.5 Mae'r Panel yn cyfarfod unwaith pob dau fis. Ceir gopi o'r cylch gorchwyl y Panel yn **Atodiad 9**.

7.1.6 Mae ymrwymiad yn ei le i sicrhau bod y Cabinet a'r Cyngor Llawn yn derbyn adroddiad blynyddol gan y Panel hwn. Yn ogystal, mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn derbyn adroddiadau cyson gan y Panel. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r Prif Weithredwr bod diogelu yn derbyn y sylw priodol o fewn y Cyngor.

## 7.2. Panel Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion

7.2.1 Mae'r Panel Gweithredol yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion, ac yn gweithio i arweiniad a gofynion y Panel hwnnw. Mae'r Panel Gweithredol yn adrodd ynglyn â'r cynnydd yn erbyn cynlluniau prosiect gwahanol i'r Panel Strategol yn rheolaidd, ynghyd â dwyn sylw i unrhyw rwystrau all effeithio ar eu gwaith.

7.2.2 Aelodaeth y Panel Gweithredol yw Rheolwyr Dynodedig ar gyfer y maes diogelu plant ac oedolion o fewn pob Adran o fewn y Cyngor. Mae'r Panel yn gyfrwng allweddol er mwyn sicrhau bod y Rheolwyr Dynodedig yn cyd-weithio a rhannu gwybodaeth ar draws y Cyngor. Maent hefyd yn ymwneud ag adnabod unrhyw fylchau mewn gweithdrefnau'r Cyngor yn y maes diogelu ynghyd a chyflwyno argymhellion i'r Panel Strategol ynglyn â diweddaru neu ddiwygio polisi'r Cyngor yn y maes hwn.

7.2.3 Rol bwysig arall y Panel Gweithredol yw monitro perfformiad ar draws y gwasanaethau o safbwynt diogelu plant ac oedolion. Mae'r Panel yn adrodd dwywaith y flwyddyn i'r Panel Strategol yn hyn o beth, gan amlygu unrhyw bryderon neu rwystrau yn glir.

## 7.3. Pwyllgor Craffu Gwasanaethau'r Cyngor

7.3.1 Mae'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal cyfarfodydd penodol o'r Pwyllgor - a hynny'n flynyddol, er mwyn craffu a herio gwaith a pherfformiad y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion. Ystyrir bod hyn yn allweddol fel bod Aelodau'r Pwyllgor yn ennill profiad a dealltwriaeth yn y maes, ac yn dod yn llwyr ymwybodol o hyd a lled gwaith y Panel a'r trefniadau corfforaethol.

### 7.4. Cynllun Strategol y Cyngor

7.4.1 Pwrpas y Cynllun hwn yw gosod cyfeiriad strategol i waith y Cyngor dros y blynyddoedd i ddod, gan adnabod blaenoriaethau clir a chynlluniau strategol fydd yn ymateb i'r blaenoriaethau hynny.

7.4.2 Mae ymrwymiad i'r maes diogelu plant ac oedolion yn flaenoriaeth penodol o fewn y Cynllun Strategol. Bydd gwireddu'r Cynlluniau Strategol yn y maes hwn yn cryfhau trefniadau'r Cyngor yn y maes diogelu, ac yn ymateb yn llawn i rai o'r negeseuon yn deillio o Arolygon CSSIW ac Estyn. Bydd y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion yn monitro perfformiad y Gwasanaethau wrth weithredu'r Cynlluniau Strategol.

## 8. ADRODD, MONITRO AC ADOLYGU

8.1. Bydd y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion (yn wyneb y dystiolaeth a'r wybodaeth a ddaw o'r Panel Gweithredol) yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol. Bydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn tynnu sylw at berfformiad y Cyngor wrth gydymffurfio a'r Polisi a Chanllawiau Corfforaethol. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn. Yn ogystal, bydd y Panel Diogelu yn adrodd i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gogledd Cymru.

8.2. Bwriedir cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol pob mis Mehefin. Rhoddir sylw yn enwedig i'r Mesuryddion Perfformiad canlynol:

| |
|---|
| **# atgyfeiriadau POVA a chwblhawyd yn y cyfnod** |
| **# atgyfeiriadau amddiffyn plant yn y cyfnod** |
| **% o staff sy'n gweithio mewn gweithgaredd rheoledig gyda plant, pobl ifanc a/neu Oedolion bregus wedi derbyn DBS o fewn 2 fis i gynnig y swydd.** |
| **% o staff sy'n gweithio mewn gweithgaredd rheoledig gyda plant, pobl ifanc a/neu Oedolion bregus wedi derbyn tystlythyr o fewn 2 fis i gynnig y swydd.** |
| **% o staff sy'n gweithio mewn gweithgaredd rheoledig wedi cael adnewyddu eu DBS ar ôl 3 blynedd.** |
| **% o staff sy'n gweithio wedi derbyn hyfforddiant lefel 1 mewn amddiffyn a diogelu.** |
| **% o swyddogaethau sydd wedi ei adnabod fel bod angen hyfforddiant lefel 2 sydd wedi derbyn yr hyfforddiant.** |
| **% o swyddogaethau sydd wedi ei adnabod fel bod angen hyfforddiant lefel 3 sydd wedi derbyn yr hyfforddiant.** |
| **% o holl Gynghorwyr y Cyngor sydd wedi derbyn hyfforddiant lefel 1.** |
| **% Adrannau gyda rheolwyr dynodedig.** |
| **% o'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi ei reoli (SCA/019)** |
| **% yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau (Diogelu2)** |
| **% y cyfeiriadau sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis (Diogelu3)** |

8.3. Bydd y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion yn derbyn adroddiad chwarterol yn nodi perfformiad dangosyddion sy'n ymwneud gyda'r maes diogelu. Yn ogystal, bydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn derbyn copi o'r adroddiad perfformiad. Bydd unrhyw bryderon ynglyn a thanberfformiad yn cael ei adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Statudol a'r Pennaeth Adran priodol, a bydd gofyn cyflwyno cynllun gweithredu clir er ymateb i'r pryderon.

8.4. Cynllunir i sicrhau dilysrwydd annibynnol yr adroddiadau perfformiad er mwyn rhoi hygrededd i'r broses.

8.5. Bydd nifer o ddulliau yn cael eu defnyddio i fonitro dealltwriaeth o'r gweithdrefnau, a chydymffurfiaeth â nhw, e.e. archwiliadau, un i un, adolygiadau gwasanaeth blynyddol, proses fonitro chwarterol gorfforaethol, adborth gan staff, gwiriadau rheolaidd ac ad-hoc.

8.6. Bydd y Polisi Diogelu hwn yn cael ei adolygu yn flynyddol neu os gwneir newidiadau i'r ddeddfwriaeth, neu i ystyried newidiadau mewn arferion gweithio a allai ddeillio o ddigwyddiadau neu honiadau.

8.7. Cyflwynir yn **Atodiad 10** fanylion pellach ynglyn a'r modd y bydd y Cyngor yn mesur effaith a monitro.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Rhestr o Reolwyr Dynodedig Adrannol
Atodiad 2 – Arwyddion o Gamdriniaeth
Atodiad 3 – Cod Ymddygiad ac Arferion Gweithio'n Ddiogel
Atodiad 4 – Hyfforddiant Diogelu
Atodiad 5 – Datgelu Troseddau a Gwirio Cofnodion Troseddol
Atodiad 6 – Canllawiau Ymarfer Da i Gynghorwyr: Cyswllt Diogel gyda Phlant ac Oedolion Bregus
Atodiad 7 – Trefn Gyfeirio
Atodiad 8 – Ymdrin â Honiadau o Gamdrin Proffesiynol
Atodiad 9 – Cylch Gorchwyl Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion
Atodiad 10 – Mesur Effaith a Monitro